

## EIN CENHADAETH YN LESOTHO

Mae Is-bwyllgor y chwirydd wedi bod yn cefnogi eglwys, ysbyty a chymuned Trebellong yn Lesotho ers peth amser. Yn yr ysbyty mae tîm cryf o nyrsys a chwrselwyr HIV a TB. Maent yn teithio i bentrefi pell gyda phroffion, triniaeth, brechiadau a chyngor. Mae'r bobl a Llywodraeth Lesotho yn gwerthfawrogi hyn yn fawr. Dyma yw hanes gwasanaethau iacháu Cristnogol ar hyd y blynyddoedd. Maent yn mynd at y bobl dlotaf ac yna mae'r llywodraethau yn mabwysiadu'r syniadau a'r cynlluniau. Mae'r ysbyty yn hyfforddi ugain o Weithwyr Iechyd Pentref drwy roi cwrs pedwar diwrnod iddynt yn yr ysbyty. Y gobaith yw cael pentrefi sy'n rhydd o HIV a TB drwy gwrsela, profi a chadw llygad ar yr ugain y cant o'r boblogaeth sy'n dioddef o HIV.



Grawn a nwyddau'n barod i'w casglu

dim ond uwd a dail gwyrd sydd ganddynt i'w fwyta. Cynhaliwyd cyfarfod gan yr eglwys ar gyfer teuluoedd oedd mewn angen. Clywyd am gyflwr gwael un teulu, mamgu oedd yn gofalu am ei hwyres a thri phlentyn y teulu estynedig. Wedi ymweld â'r cartref cofrestrwyd hwy

ar gyfer lwfans misol a rhoddwyd dillad newydd i'r plant a anfonwyd i Lesotho gan eglwys Y Watton, Aberhonddu. Roedd y teulu bach wrth eu bodd yn enwedig pan roddwyd hamper o fwyd iddynt – digon am fis – yn cynnwys olew

blodau'r haul, siwgr, bresych, tuniau cig, sebon, a chanhwyllau.

Gwahoddodd yr eglwys blant amddifad hyn oedd yn byw heb oedolion i ddod i'r adeilad un prynhawn. Daeth tuag ugain yno. Wedi trafodaeth gwnaethpwyd

cynlluniau i fagu ieir i gael wyau i'w gwerthu a phrynu pecynnau bwyd a nwyddau i bob teulu. Prynwyd cant o gywion a sach fawr o stwnsh iddynt ac erbyn hyn mae'r cynllun yn llwyddiant.

(parhad ar dudalen 2)

## Deuddeg wythnos yn ddiweddarach...

Wedi deuddeg wythnos rydym yn parhau i ynysu a chadw pellter er bod peth llacio bellach ar y rheolau yma yng Nghymru. Mae'r cyfnod hwn wedi bod yn gyfle i feddwl ac i edrych ymlaen hefyd. Er bod ein hadeiladau ar gau mae'r Eglwys yn fyw.

### Technoleg

Mae rhai yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf fel Zoom, youtube, gwasanaethau ar y teledu neu ar y ffôn, gwasanaethau drwy e-bost a.y.y.b. Fel Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr profiad newydd i mi oedd cadeirio drwy gyfrwng Zoom. Rhaid cyfaddef, er yn brofiad gwahanol i Skype, mae yn gyfrwng effeithiol o bwyllgora, yn lleihau ar deithio ac yn gyfle i weld ein gilydd er nad yn yr un ystafell.

### Trefnu

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyfarfod bob tair wythnos ac wedi cyfethol y

cyn-lywyddion dros y deng mlynedd diwethaf i ymdrin â materion y byddai Bwrdd y Gymanfa, Adran Gweinidogaethau, Adran Adnoddau ynghyd â materion arferol y mae'r Ymddiriedolwyr yn ymdrin â hwy ac i gynllunio ymlaen yn wyneb her a siatens y Covid 19.

### Diolch

Diolch i bawb sydd wedi ymateb i'r Holiadur. Bydd hyn o gymorth nid yn unig i weld y sefyllfa fel y mae hi ar lawr daear ond hefyd yn gyfle i ymateb i'r her ac i gynllunio ymlaen yn hyderus ac yn ffyddiog ac yn obeithiol.

### Gobaith

Rhaid i ni beidio ag anobeithio a digalonn'i'n llwyr. Cofiw'n mai'r Crist byw atgyfodedig ydy'r Un yr ydym ni yn ei addoli. Mae o yna gyda ni, yn ein harwain ar y blaen, yn cerdded gyda ni ar y daith ac o'r tu cefn i ni i'n cario ni

a'n hannog ymlaen. "Byddaf gyda chwi hyd ddiwedd y byd."

Mae geiriau emyn John Roberts yn berthnasol iawn ynghanol y Covid 19

"Pan wyf yn teimlo'n unig lawer awr Heb un cydymaith ar hyd llwybrau'r llawr Am law fy ngheidwad y diolchaf fi A'i gafael ynof er nas gwelaf hi."

Mae yna gyfle i ni ynghanol yr ansicrwydd, yr ofn a'r ynysu i aros gyda Christ mewn gair a gweddi. Rhydd gyfle i ni fyfyrion yn y Beibl ac i ddyfnhau ein ffydd a'n perthynas gyda'n Harglwydd a'n Gwarddwr. Mae yn rhoi nerth a chynhaliach i ni wrth i ni geisio ymdopi yn y dyddiau anodd, ansicr di gysail hyn yr ydym ynddynt oherwydd y Covid 19.

### Ansicrwydd a hyder

Parhau mae'r ansicrwydd, yr ymdeimlad yna o deimlo'n unig weithiau ac ar

(parhad ar dudalen 2)

# Diolch am dechnoleg ...

Dysgwyd nifer o wersi yn ystod y clo mawr, nid y lleiaf ohonynt oedd yr angen i feddwl y tu allan i'r bocs ac i ddysgu sgiliau newydd. Bu llwyddiant ysgubol Eisteddfod T yr Urdd yn esiampl berffaith o hyn ac mae'r mudiad i'w ganmol yn fawr am ei flaengaredd a'i ddychymyg ac am ddiddanu'r genedl mewn ffordd mor gynhwysol.



Clywyd ers sbel bod capeli ac eglwysi yn defnyddio Zoom ar gyfer oedfaon ond, ar y cyfan, hanes capeli o faint ddaeth i'r amlwg. Mewn ymateb i hyn, a chan deimlo y gallai'r syniad fod yn berthnasol i eglwysi bach lawn cystal â rhai mawr, aeth swyddogion Capel Bronant, yn Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, ati i ddysgu sgiliau newydd er mwyn trefnu oedfaon rhithwir. Criw bach fu wrthi'n arbrofi yn y lle cyntaf – rhag creu gormod o embaras wrth ddod i arfer â'r dechnoleg. Ceisiwyd cyd-ganu a chyd-ddarllen, ond roedd y gwahaniaeth rhwng teclynnau

pawb â'i gilydd, a chryfder y signal yn y cartrefi, yn gwneud hyn yn anodd. Penderfynwyd mai'r fformat hawsaf i'w ddilyn oedd creu sript gyflawn ar gyfer yr oedfa, gyda phawb yn cael copi digidol a rhannau i'w darllen. Mae'r aelodau yn cymryd eu tro i gasglu deunydd neu lunio'r oedfa, felly'n rhannu'r baich a'r diddordeb.

O fewn ychydig wythnosau roedd y criw cychwynnol o 5 wedi tyfu i fod yn 12 ac yn cynnwys aelodau o gapel Rhydlyd, Lledrod yn ogystal â chapel Bronant. Mae gobaith am gynnydd pellach y mis hwn, a sôn hefyd am gychwyn astudiaethau Feiblaidd yn ychwanegol. Mae'r oedfa Zoom am 2 bob prynhawn Sul yn cyflawni mwy nag un swyddogaeth:

- mae'n rhoi amser i gyd-addoli, gyda phob un yn cael cyfle i gyfrannu a bod yn rhan o'r addoliad hwnnw;
- mae'n rhoi cyfle i bawb **weld** ei gilydd a chael y glonc fyddent fel arfer yn ei fwynhau yn y Ffestri ar ôl oedfa arferol;
- mae'n gyfle i **ddal i fyny** â newyddion y pentref a'r gymuned.

Gan na ellir rhagweld pryd y cawn fynd yn ôl i'n hadeiladau, rhaid diolch am y dechnoleg a meddwl am ffyrdd y gellir parhau i'w ddefnyddio fel arf cenhadu pan ddaw'r clo mawr i ben. Bydd meddwl y tu allan i'r bocs yn berthnasol y pryd hynny hefyd, mae'n siŵr.

## Deuddeg wythnos yn ddiweddarach...

(parhad)

adegau eraill yn bryderus. Eto i gyd, er yr holl amrywiaeth o deimladau, mae Un sydd yn gadarn a digyfnwied sef Iesu Grist, ein Harglwydd a'n Gwaredwr byw. Hebdo nid oes gobaith i'r ddynolryw. Ef yw ein tarian a'n hamddiffynfa gadarn. "Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd, o ble y daw cymorth i mi?" oedd cwestiwn y Salmwydd gynt. Dyma gwestiwn sydd ar wefusau llawer ohonom heddiw dwi'n siwr ynghanol y dyddiau cythryblus hyn gyda'r Cofid 19 ar gerdded yn ein byd. Gallwn ninnau ateb fel y Salmwydd "Fy nghymorth a ddaw oddi wrth yr Arglwydd, Creawdwr nef a daear."

Parhawn i roi ein ffydd a'n hymddiriedaeth ynddo: "Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon, credwch yn Nuw a chredwch ynof finnu." Bydded i ninnau dderbyn o'i dangnefedd Ef, y tangnefedd mewnl hwnnw na wŷr y byd amdano. Wrth ei dderbyn cawn y nerth i wynebu y firws hwn yn efn ac yn obeithiol. Rydym angen y sicrwydd hwnnw fod addewidion Crist yr un mor sicr a chadarn ag erioed.

### Ffydd ac ymddiriedaeth

Parhawn i ofalu am ein gilydd, gan gysylltu drwy ffôn ayb. Bydded i ni gynnal ein gilydd a rhoi ein ffydd a'n hymddiriedaeth yn yr un digyfnwied – "Iesu, yr un ddoe, heddiw ac yn dragywydd." Bydded i ni edrych ymlaen yn hyderus ac yn obeithiol i'r dyfodol. Wrth gofio mai Crist y goleuni a'r gwir fywyd ydy'n Harglwydd yn pheidiwn â digalonni. Galwad Crist ydy ar i ni ddyfalbarhau a dal ati gan gofio ei fod ef gyda ni drwy'r Ysbryd Glân sy'n trigo ynom drwy ffydd.

Anogodd Edgar Lewis ni yn ei Emyn fel hyn:

"O rho dy bwys ar freichiau'r Iesu,  
fe'th gynnal ymlaen, fe'th gynnal  
ymlaen;  
dy galon wrth ymddiried ynddo,  
a leinw ef â chân.

O rho dy bwys ar freichiau'r Iesu,  
d'ofalon i gyd, d'ofalon i gyd  
a'th feichiau trymion dod ar Iesu,  
mae'n cario beichiau'r byd."

Parhawn ninnau heddiw i bwysu arno ef a gadael iddo ein cynnal a'n codi. Bydded i ninnau gyflwyno'n hunain a'n gilydd i'r Arglwydd gan deimlo ei law anweledig ef yn gafael yn dynn amdanom.

Diolch i chi am barhau i ddangos fod eglwys Crist yn fyw ac ar agor heddiw fel ag erioed.

**Parchg Brian H Jones**  
**Cadeirydd Ymddiriedolwyr EBC**

## EIN CENHADAETH YN LESOTHO (parhad)

Mae'r bobl ifanc hefyd eisiau potelu dŵr o ffynnon ddibynadwy a'i werthu. Mae nhw'n chwilio am bartner yn y fenter ac wedi codi hanner y gost o £4,000. Daw gweddill yr arian gan noddwyr – fel Is-bwyllgor Chwiorydd Eglwys Bresbyteriaid Cymru.

Yn ddiweddar iawn, drwy law Dr. Graham Thomas, daeth neges frys o Lesotho gan Joshua Lethlala, arweinydd cymunedol o'r Eglwys Efengylaidd. Er nad oes achosion o'r feirws yn y wlad, er mwyn diogelu'r bobl penderfynodd y llywodraeth fod lockdown yn hanfodol. Nid oes neb yn cael symud o gwmpas a rhaid i bawb aros yn eu tai. Wedi tair wythnos o ynysu mae'r llywodraeth wedi gorchymyn pythefnos arall heb i neb deithio ac erbyn hyn mae'r bobl dlotaf yn dioddef newyn. Heb gymorth byddant yn marw, nid o effaith y feirws ond o ddiffyg maeth. Mae'r cymunedau yn ceisio cydweithio i gario bwyd at y mwyaf anghenus. Mae'r eglwys yn gofyn nid yn unig am ein gweddïau ond am gymorth ariannol i brynu'r bwyd. Mae'r lockdown yn Affrica yn drychinebus i'r tlodion ac yn mynd i ladd



*Gweithwyr lechyd yn teithio hyd at 6 awr mewn tywydd garw er mwyn cyrraedd cymunedau diarffordd*

llawer mwy na'r feirws. Anfonodd Dr Thomas gyfraniad personol eisoes ac mae swyddogion Is-bwyllgor y Chwiorydd wedi penderfynu anfon £1000 atynt. Ffydd heb weithredoedd marw yw. Ein braint ni yw cael estyn dwylo dros y môr at ein brodyr a'n chwiorydd yn Lesotho. Mae'r teulu dynol o dan fygythiad gelym anweledig a marwol a rhaid i ni fod yn gymorth i'n gilydd, yn enw Iesu'r Meddyg Da.

**Eirlys Gruffydd-Evans (Cadeirydd)**

# AR DAITH DRWY'R HEN DESTAMENT

Canllaw ar gyfer astudiaeth a thrafodaeth mewn grŵp bychan, gan gynnwys gwrs oedolion yr ysgol Sul neu fel deunydd myfyrdod personol (Seiliedig ar y gyfrol *Geiriau Ffydd 3* gan y Parch. John Treharne, sef gwrslyfr ysgol Sul yr oedolion am 2019/20)

Paratowyd gan y Parch. Hywel Rh. Edwards

## Gwers 41 – Sul, 5 Gorffennaf

'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd'  
(*Caneuon Ffydd*, 319)

### SECHAREIA

Dywedodd Sechareia: Neithiwr cefais weledigaeth, dyn yn marchogaeth ar geffyl coch. Yr oedd yn sefyll rhwng y myrtwydd yn y pant, ac o'i ôl yr oedd meirch cochion, brithion a gwynion. (Sechareia 1:8; tud. 291 yn y Gwerslyfr)

*Darllen:* Sechareia 1:1–3, 7–17; Mathew 1:1, 12–16; Ioan 2:13–22

#### Gweddi:

Dyma'r man dymunwn aros,  
o fewn pabell bur fy Nuw,  
uwch terfysgoedd ysbryd euog  
a themtasiwn o bob rhyw,  
dan awelon

peraidd, hyfryd tir fy ngwlad. AMEN.  
(*Caneuon Ffydd*, 708)

Dwi'n amau'n fawr nad yng Nghwm Rhondda y cafodd Sechareia y

weledigaeth hon, ond mae'n siŵr mai dyna'r cysylltiad ddaw i'n meddwl. Er mor gyfarwydd yw geiriau'r emyn 'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd ...', tybed beth yw eu hystyr?

Mae proffwydoliaeth Sechareia yn dechrau ddeufis ar ôl un Haggai, yn ail flwyddyn Dareius. Fel ei gyd-broffwyd, ymwneud â'r Iddewon a ddychwelodd o'r Gaethglud ym Mabilon y mae, ond yn llawer mwy apocalyptaidd yn nwy ystyr y gair: i) yn datguddio'r hyn sydd i ddyfod; ii) yn ymwneud â diwedd amser.

Yn y traddodiad apocalyptaidd Beiblaidd, mae yna gyflawniad presennol (neu dyfodol agos), ond hefyd gyflawniad llawnach i ddyfod, megis y sôn am 'ddydd yr ARGLWYDD' a'r cenhedloedd yn ymgasglu i gadw Gŵyl y Pebyll (sydd â chysylltiad â'r cynhaeaf ar y dydd olaf, 14:16).

Ond beth am y myrtwydd? Coeden fytholwyrdd yw'r *hadassah*, a'i dail yn cynhyrchu olew persawrus; mae ei blodau pinc yn ymdebygu i sêr. (Cafodd merch o'r enw Hadassah, 'myrtwydd',

ei chodi'n frenhines a'i hailenwi yn Esther, sef 'seren' yn iaith Persia.)

I Iddewon y cyfnod yma, roedd ystyr benodol i'r myrtwydd oherwydd gorchymyn a roddwyd yn adeg Nehemeia eu bod, adeg Gŵyl y Pebyll (neu'r tabernaclau), i wneud 'succoth', sef cytiau i drigo ynddynt dros yr ŵyl: "Ewch allan i'r mynydd, a dygwch gangau olewydd ac olewydd gwyllt a myrtwydd a phalmwydd a choed deiliog i wneud pebyll." (Nehemeia 8:15) Fe'u hatgoffwyd yn ogystal o'r addewidion am waredigaeth yn Eseaia 41:19 a 55:12–13.



*Coeden fyrtwydd*

Ond pwy yw'r un sy'n sefyll rhwng y myrtwydd? Mae'r gweledigaethau sy'n dilyn (3:1–10; 6:9–15), lle y bendithir Josua yr archoffeiriad, yn gynrychioliadol o'r un oedd i ddod yn frenin ac yn offeiriad. Sylwch ar y teitl Blaguryn yn 3:8 a 6:12, sy'n adleisio Eseaia 11 a Jeremeia 23:1–8, yn arbennig adn. 5–6: "Wele'r dyddiau yn dod," medd yr ARGLWYDD, "y cyfodaf i Ddafydd Flaguryn cyfiawn, brenin a fydd yn llywodraethu'n ddoeth, yn gwneud barn a chyfiawnder yn y tir. Yn ei ddyddiau ef fe achubir Jwda ac fe drig Israel mewn diogelwch; dyma'r enw a roddir iddo: 'Yr ARGLWYDD ein Cyfiawnder.'" "

(*parhad ar y dudalen nesaf*)



Sul, 28 Mehefin

Oedfa

Dechrau Canu  
Dechrau Canmol  
am 11:00yb

gyda'r Dr Catrin Elis Williams  
yn arwain

Dechrau Canu Dechrau  
Canmol  
nos Sul am 7:30yh

(ailldarlledir y bore Sul canlynol  
cyn yr oedfa)

Yr wythnos yma Ryland fydd yn ein tywys drwy hai o uchafbwyntiau'r gyfres bresennol o Dechrau Canu, Dechrau Canmol. Fe gawn ni gyfle i ailfwynhau rhai o straeon y gyfres a chael cydganu rhai o'n hoff emynau.



Caniadaeth y Cysegr

Sul, 28ain Mehefin

7:30yb a 4:30yp

Y Parchedig R. Alun Evans sy'n cyflwyno Saith ar y Sul, is-gyfras Caniadaeth y Cysegr. Heddiw, cantorion capeli Annibynwyr Castell Newydd Emlyn a'r cylch sy'n dewis eu hoff emynau o gymanfa a gynhaliwyd yng nghapel Ebenezer yn y dref.

Oedfa Radio Cymru

Oedfa Radio Cymru am 12:00yp,  
28 Mehefin: Sara Roberts, Boduan.

Mae Radio Cymru wedi newid trefn y ddarpariaeth grefyddol ar y Sul ers mis Ebrill, gyda'r arlwy yn edrych fel hyn bellach:

7:30yb Caniadaeth y Cysegr  
12:00yp Yr oedfa  
12:30yp Bwrw Golwg  
16:30yp Caniadaeth y Cysegr  
(ailldarllediad)

Cyfeiriad Golygydd  
Y PEDAIR TUDALEN

Huw Powell-Davies

pedair.tudalen@gmail.com

neu Llifor, 60 Ffordd Rhuthun,  
Yr Wyddgrug, CH7 1QH

Anfonwch eich erthyglau, hysbysebion  
a.y.y.b. i'r cyfeiriad uchod.

Mae'r Pedair Tudalen Gydenwadol yn cael eu cynnwys yn rhan o bapurau wythnosol tri enwad, sef *Y Goleud* (Eglwys Bresbyteriaidd Cymru), *Seren Cymru* (Undeb Bedyddwyr Cymru) a'r *Tyst* (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg).

# MYND YN ÔL ...?

Dwi'n sgwennu'r geiriau yma ddydd Sul, 14 Mehefin 2020. Hyd yma, does dim newyddion wedi dod oddi wrth Lywodraeth Cymru drwy'r sianelau enwadol pa bryd y cawn fynd 'yn ôl' i'n capeli neu ein manau addoli.

Ydach chi'n edrych ymlaen at fynd yn ôl? Cwestiwn od braidd, rhaid cyfaddef, oherwydd dydi ymlaen ac yn ôl ddim yn mynd law yn llaw rywsut, ond ta waeth am hynny. Rydw i wedi meddwl llawer iawn ynglŷn â mynd yn ôl. Fallai y byddai hi'n haws gofyn pa wersi neu pa bethau cadarnhaol, ymarferol yr ydw i wedi'u dysgu a chael f'atgoffa ohonyn nhw yn y Cyfnod Clo ynglŷn â'r weinidogaeth, a defnyddio'r gair yna yn ei ystyr eang?

Y peth cyntaf yr ydw i wedi'i weld a'i ddysgu o'r newydd ydi bod eglwys yn fwy nag adeilad, a bod addoliad yn fwy na jest cyfarfod am awr ar y Sul. Ar draws y byd, mi rydyn ni wedi gweld Cristnogion ac aelodau eglwysig yn ymateb yn ymarferol i her y cyfnod gwahanol yma ac wedi gweithredu fel y dylai Cristnogion ei wneud yn eu consŷrn tuag at ei gilydd. Parhaed a thyfed.

Yr ail beth sydd wedi dod i'r golwg ydi'r ehangder o ddulliau cyfathrebu sydd yn ein meddiant bellach. Mae technoleg wedi datblygu'n aruthrol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bu llawer yn manteisio ar y dechnoleg yma i gyfathrebu'r Efengyl drwy'r wythnosau diwethaf. Wna i ddim dechrau rhestru'r gwahanol ddulliau. O'm rhan fy hun, gweinidogaeth Facebook ydi hi wedi bod gan fod nifer o'm haelodau'n rhannu Facebook â mi, a gweinidogaeth papur a phost ambell dro. Pawb a'i ddull ydi hi

wedi bod, ac mae angen parchu pob dull. Ond mae gweinidogaeth y ffôn, e-bost, tecst a.y.y.b. wedi bod yn hynod o werthfawr hefyd. A dweud y gwir, mi ddylai'r enwadau ar y cyd roi addysg lawnach i weinidogion i ddysgu'r dulliau cyfathrebu yma. Er enghraifft, mae gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Swyddog Cyfathrebu sydd yn feistr ar ei waith yn Rhodri Darcy, a fu am flynyddoedd yn gweithio i'r rhaglen *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*. Jest y boi i bawb, oherwydd, o brofiad yr wythnosau diwethaf, bydd yn rhaid datblygu'r weinidogaeth hon.

O ganlyniad i hynna i gyd, dangosodd i mi'n glir iawn ein bod wedi bod yn llawer rhy ffurfiol yn ein haddoli ar y Sul, yn wir bod ein bywyd eglwysig ni ar ei hyd yn un sribyn o ffurfioldeb. Gadewch i mi ymhelaethu: ddaru chi, weinidogion a phwy bynnag oedd yn arwain gwasanaethau ar y cyfryngau cymdeithasol, newid eich dillad pan oeddech chi'n paratoi i recordio oedfa weledol ar y cyfryngau yma? Dwi ddim yn meddwl. Wnes i ddim! Ac eto, mae 'na rywbeth yn dweud wrtha i, cyn gynted ag y rhown ni ein traed i mewn yn ôl yn ein capeli, y byddwn ni'n ffurfioldeb i gyd yn glynu wrth yr un dillad sabothol ac yn glynu wrth yr un hen drefn bob Sul, o ia, ac yn cadw at bregeth dri phen, hanner awr. Gobeithio y bydd ffurfioldeb yn cael ei chwalu'n rhannol.

Pellter cymdeithasol. Wel ia, dipyn o niwsans, hwnna ydi o. Ond wyddoch chi be, os bydd rheolau'r pellter cymdeithasol yn parhau pan gawn ni fynd yn ôl – ac mi rydw i'r cyntaf i gydnabod pa mor anodd ydi hi wedi bod

i geisio cynnal teuluoedd galarus yn y cyfnod yma a chadw pellter cymdeithasol o ddau fetr – mi fydd yn handi iawn yn hanes Sêr Fawr llawer iawn o'n capeli ni! Wyddoch chi, gyda llaw, nad oedd 'na ddim sôn am Sêr Fawr yn y capeli cynnar. Fallai byddai'n well i mi adael y drafodaeth yna yn fanna. Ond dwi wedi'i gweithio hi'n daclus, o dan y rheolau presennol, petai blaenoriaid/diaconiaid ddim yn eistedd yn y Sêr Fawr, yna mi fasa'r pregethwr yn cael sbario mynd i'r pulpud. A dwi wedi trio dod allan o fynd i fannu ers blynyddoedd, yn arbennig mewn ambell gapel pan mae'r pulpud tua hanner milltir oddi wrth ac uwchben y gynulleidfa! Onid efo'r bobol yr oedd Iesu Grist, nid uwch eu pennau nhw, ac onid dilyniant i weinidogaeth Iesu ydi braint ein gweinidogaeth ni? Cwestiwn inni feddwl amdano.

Yr hyn rydw i newydd ei wneud ydi pwysleisio'r cadarnhaol a'r positif yng nghanol un o'r cyfnodau gwaethaf, os nad y cyfnod gwaethaf, a gafodd Eglwys Iesu Grist erioed drwy'r byd. Oherwydd ni chlywyd fawr ddim erioed am eglwysi'n methu cyfarfod i addoli, hyd yn oed yn yr amgylchiadau gwaethaf fu.

Ond mi ddigwyddodd yn 2020 pan sgubodd un o'r pandemics gwaethaf drwy'r byd ar raddfa echrydus gan fynd â llawer gormod o bobl efo fo. Bu'n gyfnod gorthymus i unigolion a theuluoedd; i weithwyr iechyd a gofal; i blant ac athrawon; i weithwyr swyddfa ffatri, ac i eglwysi unigol a gollodd aelodau cywir a ffyddlon. Bu'n rhaid i ninnau, weinidogion ac offeiriaid, ddelio â sefyllfaoedd na wnaethon ni freuddwydio y byddem yn gorfod ei wneud yn y dulliau yr oeddem yn eu gwneud. Fedrai'r un coleg diwinyddol ein paratoi ar gyfer y profiad, oherwydd pwyslais trwm y colegau oedd, ac yw, pregethu a dysgu mewn awyrgylch gymdeithasol, a bugeilio pobl yn eu sefyllfaoedd anodd. Rydyn ni wedi gorfod gwneud hynny heb fedru ysgwyd llaw na chofleidio, a heb hyd yn oed fedru mynd i weld y teuluoedd dan sylw. Ac o sôn am hynny, mae ein trefnwyr angladdau wedi bod yn allweddol o dan yr amgylchiadau yma.

Mae 'na wersi hefyd i'r enwadau i fod yn barod i weithredu ar ddiwrnod glawog. A gadewch inni fod yn onest: nid diwrnod glawog a gafwyd, ac a geir, ond un o'r stormydd gwaethaf fu erioed.

Wrth fynd yn ôl, ymlaen i'r yfory dwi ei eisiau mewn ffyrdd gwahanol.

'Yfory gwell sydd eto i ddod, / I'r Tri yn Un atseinier clod,' meddai'r Prifardd Gwyndaf am yr eglwys. Boed felly, ond y mae'r 'gwell' yn gosod her i ninnau i beidio â llochesu gormod yn y 'cyfarwydd' wrth fynd yn ôl.

*Iwan Llewelyn*

## Ar daith drwy'r Hen Destament (parhad)

Dywed Jeremeia mai disgynnydd i Dafydd fydd y 'Blaguryn', ond offeiriad o dŷ Lefi a goronir yma. Ond mae Sechareia yn rhoi'r darn arall yn y pos drwy gyhoeddi mai Sorobabel, disgynnydd Dafydd, fydd yn 'sylfaenu'r tŷ' (4:9). O'i ddatrys, gwelwn y bydd yr un sydd i ddyfod yn frenin ac yn offeiriad, addewid a gyflawnwyd yn nyfodiad Iesu'r Meseia (cymharer Salm 110; Mathew 22:41–6 a Hebreaid 7).

Daw hyn yn fwy trawiadol ym mhennod 13 wrth gyhoeddi agor ffynnon: "i linach Dafydd ac i drigolion Jerwsalem, ar gyfer pechod ac aflendid", a'r cyhoeddiad rhyfeddol fod yr un sydd wrth ei ymyl i'w daro gan yr Arglwydd (13:1, 7).

Rhaid gweld, felly, fod yna rywbeth 'ofnadwy' yn y dyn sydd rhwng y myrtwydd. Dyma ddwysáu ymadrodd Ann Griffiths, mai hwn yn wir yw'r gwrthrych teilwng o'i holl fryd.

### Trafod ac ymateb:

1. Mae'r myrtwydd yn symbol o drigo neu 'dabernaclu'. Myfyriwch ar rif 319 yng Nghaneuon Ffydd yng ngoleuni Ioan 1:14–18.
2. Ystyriwch sut mae geiriau olaf y llyfr (14:21b) yn cyfeirio at Iesu'n glanhau'r marchnatwyr o'r deml ac yn cyhoeddi mai ef fydd yn codi'r wir deml (Ioan 2:13–22).
3. A gawsoch chi eich golchi yn y ffynnon a gorwyd (13:1)?

# Anna Jane yn ffarwelio â Chymorth Cristnogol

Ar ôl 18 mlynedd o wasanaeth i Gymorth Cristnogol, daeth yn amser ffarwelio ag Anna Jane Evans, Cydlynnydd Rhanbarth Gogledd Cymru. Cychwynnodd Anna Jane yn ei swydd yn 2002 a bu'n aelod pwysig o dîm Cymru byth ers hynny. Bydd yn dechrau ar ei gwaith fel gweinidog yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru, wedi ei lleoli yn Seilo, Caernarfon, ac Eglwys y Waun, Waunfawr.

Ym mlynnyddoedd ei gwasanaeth gyda Chymorth Cristnogol, bu iddi ymweld â phum gwlad i weld drosti ei hun y gwahaniaeth yr oedd haelioni eglwysi Cymru yn gallu ei gyflawni ymysg cymunedau tlotaf y byd.

Meddai Anna Jane, 'Yr uchafbwynt ymhlith y teithiau oedd ymweld â'r Pilipinas fel rhan o apêl y Presbyteriaid yn 2018. Roedd mor ysbrydoledig cyfarfod â phobl gyffredin sy wedi eu galluogi a'u grymuso gan bartneriaid Cymorth Cristnogol i herio awdurdod y llywodraeth yno. Trwy'r ymdrechion hyn maent yn gallu mynnu eu hawliau ac mae hynny'n allweddol wrth iddyn nhw frwydro yn erbyn tlodi.

'Mae wedi bod yn fraint gweithio i Gymorth Cristnogol ar hyd y

blynyddoedd hyn. Wrth gwrs, ar un ystyr, dwi ddim yn gorffen – byddaf yn dal i wirfoddoli yn union fel ag yr oeddwn cyn imi ddod yn aelod o'r staff. Bydd y berthynas yn parhau.'



Wrth ffarwelio â hi, dywedodd Cynan Llwyd, Pennaeth Gweithredol Cymorth Cristnogol yng Nghymru, 'Rydym ni'n drist wrth ffarwelio ag Anna Jane gan fod ei chyfraniad hi wedi bod mor fawr. Mae hi'n berson sy'n llawn angerdd tuag at waith Cymorth Cristnogol ac yn un sy'n teimlo'n gryf iawn wrth weld anghyfiawnder a thlodi yn ein byd.

'Ymhlith cyfraniad enfawr Anna Jane fe allwn restru paratoi sawl oedfa radio ar y BBC, paratoi oedfaon yr Eisteddfod Genedlaethol, a cherdded dwy daith noddedig arbennig – y gyntaf o Nasareth, Caernarfon, i Fethlehem, Sir Gaerfyrddin, a'r llall yn cychwyn ym Methlehem ond yn diweddu yn yr Aifft, Sir Ddinbych. Efallai'n bwysicach na dim, fodd bynnag, y mae'r cefnogwyr cyffredin ar hyd a lled y gogledd sydd wedi eu hysbrydoli ganddi i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol. Dyma hanfod y swydd – a gwnaeth hynny gyda graen bob amser.'

Ychwanegodd Cynan Llwyd, 'Er y byddwn yn teimlo'r golled, rydym yn dymuno'n dda iddi ar gyfer y dyfodol. Bydd ei sgiliau fel cydlynnydd rhanbarthol lawn mor ddefnyddiol wrth arwain eglwys. Dymunwn fendith Duw ar ei gweinidogaeth newydd.'

\* \* \*

*Dymunwn ninnau, ddarllynyddwr y Tudalennau Cydenwadol, bob bendith iddi hefyd gan ddiolch iddi am bob cyfraniad a ddaeth i law ganddi ar hyd y blynyddoedd am sawl pwnc. Yr ydym yn hyderus y bydd yn parhau i'n hysgogi i waith y Deyrnas yn ei chyfraniadau inni o'i maes newydd. (Gol.)*

## Beti George yn canmol nofel ingol am gariad a dementia

Mae'r awdures boblogaidd Mared Lewis yn cyhoeddi nofel fer, *Gemau*, sy'n mynd i'r afael â phwnc dwys, agos at ei chalon – dementia.

"Hwn ydy'r 'llyfr hawsaf ac anoddaf dwi wedi ei sgwennu rioed. Tan i ddementia guro ar ddrws ein teulu ni, do'n i ddim wedi meddwl llawer amdano o ddiatri. Roedd yn rhywbeth oedd yn digwydd 'tu allan' neu i rywun arall. Erbyn hyn dwi'n sylweddoli pa mor gyffredin ydy o, ei fod yn un o'r afiechydon creulonaf, sy'n ceisio rhwygo dioddefwyr oddi wrth eu teuluoedd a'u ffrindiau, oddi wrth eu profiadau, oddi wrthyn nhw eu hunain, a deud y gwir," meddai Mared Lewis.

Meddai Beti George am y nofel: "Mae Mared wedi ei deall hi! Mor gelfydd yw ei darlun o fywyd Rose a Cleif wrth i ddementia alw heibio, gan setlo ar eu haelwyd a chreu hafog. Stori gariad, wedi ei hadrodd yn gywain ac annwyl."

Mae *Gemau* yn dilyn Rose, ei gŵr Cleif, a'i merch Nina. Mae'r nofel yn amlygu'r anwylydeb sydd rhwng gŵr a gwraig, wrth i Cleif edrych ar ôl Rose, er gwaethaf yr heriau. Dengys y berthynas newydd sy'n datblygu rhwng Rose a Nina, ar ôl blynyddoedd o fod ar wahân, perthynas annwyl ac ingol yr un pryd wrth i'r ddwy ddod i nabod ei gilydd o'r



dechrau. Mae'r sgwennu yn onest ac yn sensitif ac mae'r nofel fer hon yn sicr yn mynd i ennyn trafodaeth.

"Ar un wedd, does 'na ddim llawer o gysur mewn dementia – does 'na ddim gwellhad. Ond y gwir amdani ydy bod cariad yn goresgyn hyn i gyd yn y diwedd. Mae un wên, un fflach o adnabyddiaeth yn profi bod y person, a'r cariad, yn dal yno. Ac i'r teulu, i'r partner, i'r ffrind, mae honno'n fflach sy'n werth

y byd, sy'n eu cynnal, sy'n eu hatgoffa bod y person go iawn yno o hyd, a'i fod angen eich gofal a'ch cariad yn fwy na dim arall," meddai Mared.

Mae pob adran yn dechrau gyda disgrifiad o wahanol emau, sy'n cael eu cyflwyno mewn gweithdai ar ddementia. Mae nodweddion y gemau amrywiol – fel saffir, emrallt a pherl – yn adlewyrchu sgiliau sydd yn dal i fod gan y person sy'n dioddef o ddementia, yn hytrach na'r sgiliau sydd wedi cael eu colli.

"Mae'r nofel yn dangos pwysigrwyd rhwydwaith i gefnogi'r claf a'r gofalwr. Y peth anoddaf efo'r cyflwr ydy'r teimlad eich bod ar eich pen eich hun, a ddim yn gwybod lle i droi nesa. Mae unrhyw fforwm o drafodaeth, boed wyneb yn wyneb, neu drwy ddefnyddio llenyddiaeth neu gelf fel ysgogiad, yn beth gwerthfawr. Ac mae trafodaeth yn lleihau'r stigma hefyd, stigma sy'n dal yno, yn llechu rhwng brawddegau," meddai Mared.

**Mae *Gemau* gan Mared Lewis ar gael nawr (£5.99, Y Lolfa).**

**Bydd Beti George yn trafod *Gemau* gyda Mared Lewis ar blatfform yr Eisteddfod AmGen nos Lun, 13 Gorffennaf, am 8 o'r gloch (manylion: <https://eisteddfod.cymru/amgen>).**

# Cofio Daucanmlwyddiant Marw Thomas Jones (1756–1820)

Fe'i ganed oddeutu diwedd Chwefror ym 1756 ym Mhenucha, Caerwys, Sir y Fflint, lle treuliodd ddeugain mlynedd cyntaf ei oes. Derbyniodd addysg glasurol dda yng Nghaerwys a Threffynnon. Roedd pwysau arno, yn enwedig o du ei dad, i ymroi i ysgolheictod ac ymgymryd ag urddau eglwysig ond nid felly y bu. Ar ôl gadael ysgol yn ifanc bu'n gweithio ar fferm y teulu.

Ymunodd â'r Methodistiaid ac mewn amser dechreuodd bregethu. Bu wedyn yn gofalu am achosion yn yr Wyddgrug, Rhuthun a Dinbych. Yn ŵr amryddawn, roedd yn fardd, emynydd, hanesydd, diwinydd a chofiannydd. Er iddo briodi deirgwaith, roedd yn ddi-blant. Bu farw ar 16 Mehefin 1820, ddau gan mlynedd yn ôl i'r mis hwn. Fe'i claddwyd ym mynwent yr Eglwys Wen yn Ninbych.

Yn ei ddarlith 'Y Cawr o Benucha' (2019) mae'r Athro E. Wyn James yn disgrifio Thomas Jones fel dyn hynod anghyffredin a nodedig ar sawl cyfrif a gafodd ei esgeuluso gan y genedl i raddau helaeth, o leiaf hyd at ganol yr ugeinfed ganrif pan gyhoeddodd yr hanesydd Frank Price Jones fywgraffiad ohono (*Thomas Jones o Ddinbych 1756–1820*, Gwasg Gee, 1956). Un sydd wedi astudio cyfraniad Thomas Jones yn fwy diweddar, yn enwedig fel diwinydd, yw'r Parchedig Ddr Andras Iago, gweinidog ifanc Eglwys Presbyteraidd Bro Dinbych.

Roedd Thomas Jones yn un o'r naw cyntaf i'w hordeinio'n weinidogion gan y Methodistiaid Calfinaidd yn Sasiwn y Bala ym 1811, blwyddyn dyngedfenol ymwahanu ei enwad yn derfynol oddi wrth Eglwys Loegr. Fe'i disgrifir fel un o arweinwyr mwyaf medrus a dysgedig ei enwad – 'diwinydd dysgedigaf y Cyfundeb', yn ôl yr hanesydd Dr John Davies. Cymerodd ran helaeth yn nadleuon diwinyddol ei gyfnod, gan ddadlau yn erbyn Arminiaeth ac Uchel-Galfiniaeth.

Roedd yn gyfaill mawr i Thomas Charles o'r Bala a bu'r ddau'n cydweithio llawer. Drwy'r cyfeillgarwch hwn y daeth Thomas Jones i wybod mwy am y byd crefyddol y tu allan i Gymru ac am fudiadau fel y Feibl Gymdeithas. Cydolgydd ddau gylchgrawn crefyddol o'r enw *Y Drysorfa Ysprydol* am gyfnod (chwe rhifyn). Mae'n debyg i Thomas Jones ddylanwadu ar agwedd Thomas Charles


at dorri'n rhydd o'r Eglwys Sefydledig ac ordeinio gweinidogion. Dywed Huw Owen yn *Capeli Cymru* mai ef oedd prif arweinydd yr ymgyrch yn y gogledd i sefydlu'r Methodistiaid Calfinaidd yn enwad ar wahân. Dylanwadodd yn fawr hefyd ar Gymraeg llenyddol Thomas Charles ac ysgrifennodd gofiant i'w gyfaill pennaf.

Mae cyswllt arbennig rhwng Thomas Jones a'r wasg yng Nghymru. Yn ŵr cysurus ei amgylchiadau bydol sefydlodd wasg yn Rhuthun a daeth Thomas Gee (yr Hynaf) ato i weithio o Lundain. Symudodd y wasg wedyn i Ddinbych ac fe'i gwerthwyd i Thomas Gee. Cymerodd ei fab yntau, Thomas Gee, drosodd yn ddiweddarach. Bu'r wasg hon yn fawr ei dylanwad, gan ddod yn adnabyddus am gyhoeddi *Y Faner* a llu o drysorau eraill.



Argraffdy cyntaf Thomas Jones yn Rhuthun (o gofiant Jonathan Jones iddo)

Bu Thomas Jones yn gyfrifol am sawl cyfrol ddiwinyddol o bwys a chaiff ei adnabod fel un o ysgrifenywyr Cymraeg gorau ei gyfnod. Ymysg ei gyhoeddiadau mae *Geiriadur Saesoneg a Chymraeg*. Roedd hefyd yn fardd graenus a chynhyrchiol. Mae tri emyn o waith Thomas Jones yn *Caneuon Ffydd* (ac nid pump fel y nodir ym mynegai'r gyfrol).



Un o'r emynau hyn yw: 'O arwain fy enaid i'r dyfroedd', a bydd y rhai ohonoch sy'n gyfarwydd â CD *Hoff Emynu Dafydd Iwan* (2015) wedi'i glywed yn canu geiriau Thomas Jones ar 'Yr Hen Ddarbi'. Ar y geiriau hyn hefyd y cyfansoddodd D. Emlyn Evans



(brawd y Parchedig E. Keri Evans, un o gyn-weinidogion Capel y Priordy, Caerfyrddin) un o'i donau enwocaf, Eirinwg. Mae'n debyg mai harddwch bro ei febyd yn Nyffryn Teifi ar brynawn o haf fu'n ysbrydoliaeth iddo gyfansoddi'r dôn hon.

Emyn arall o waith Thomas Jones yw 'Mi wn fod fy mhrynwr yn fyw'. Mae *Cydymaith i Caneuon Ffydd* yn nodi ei fod yn seiliedig ar Lyfr Job 19: 25–26: 'Oherwydd gwn fod fy amddiffynnwr yn fyw, ac a saif o'm plaid yn y diwedd; ac wedi i'm croen ddifa fel hyn, eto o'm cnawd caf weld Duw.' (BCND).

Gwantan fu iechyd Thomas Jones ar hyd ei oes, ond dywed Huw Powell-Davies yn *Emynau'r Ffydd* iddo ddal ei afael yng ngobaith yr Efengyl ac yng ngobaith Job 'y câi ei "weled ef eto yn fy nghnawd" yn ôl ei fersiwn ef ei hun o'r emyn cyn ei newid i "allan o'm cnawd" gan olygyddion diweddarach'.

A chyda'r emyn hwn y cysylltir y dôn Trewen amlaf, gwaith D. Emlyn Evans unwaith eto. Mae enw'r dôn yn dod o fro enedigol y cyfansoddwr. A thra oedd yno'n eistedd ar gamfa 'yng nghwmni côr y wig a golygfeydd natur', yn ôl E. Keri Evans, ei gofiannydd, y daeth y dôn i fod. Ac wrth sôn am y briodas rhwng y geiriau a'r dôn, meddai *Cydymaith Caneuon Ffydd*: 'Cymaint yw'r cyswllt rhyngddynt fel bod stryd wedi ei henwi'n Stryd Trewen yn Ninbych, tref Thomas Jones.' A dyma ddyfynnu pennill cyntaf yr emyn adnabyddus hwn fel ag yr oedd yn wreiddiol i gofio am ŵr go arbennig:

Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw,  
a'm prynodd â thaliad mor ddud;  
fe saif ar y ddaear, gwir yw,  
yn niwedd holl oesoedd y byd;  
er ised, er gwaeled fy ngwedd,  
teyrnasu mae Mhrynwr a'm Brawd;  
ac er fy malurio'n y bedd  
ca'i weled ef eto'n fy nghnawd'.

Alun Charles  
(O 'Bapur y Priordy',  
rhifyn Mehefin 2020)

## Ffydd... a diwylliant

Mae'r delweddau wedi bod yn rhai digon hyll.

Y delweddau gwreiddiol o Miniapolis o blismon gwyn yn llofruddio dyn du o flaen tystion a camera.



Murlun o George Floyd, Berlin  
(cliciwch yma: <http://tiny.cc/hop4qz>)

Dyn oedd yn Llundain i amddiffyn ei chofgolofnau, yn gwneud dŵr ar ben cofgolofn i blismon a gollodd ei fywyd.

Dynion yn amddiffyn cerflun Churchill ("a'n hachubodd ni rhag Hitler") ac yn gwneud hynny gan ddynewared y saliwat Natsiaidd.

Ond wedyn mae yna un llun arall. Llun o ddyn mawr, cydnerth, addfwyn yn cario dyn ar ei gefn o afael torf oedd, yn llythrennol, am ei waed. Roedd y nail yn perthyn i fudiad Black Lives Matter,

a'r llall, mae'n debyg, yn perthyn i garfan o wrthwynebwyr asgell dde. Roedd y nail yn ddu a'r llall yn wyn.

Patrick Hutchinson (cliciwch yma: <http://tiny.cc/krp4qz>) oedd enw'r gŵr achubodd fywyd ei wrthwynebydd. Ond nid gwrthwynebydd a welodd o ond cyddyn oedd mewn peryg o golli ei fywyd.

Dyma ddynoliaeth ar ei orau.

Nid yn unig roedd o wedi gweld cyd-ddyn mewn perygl ond roedd o hefyd wedi rhoi ei hun yn esgidiau'r tri plismon a safodd a gwyllo'u cydweithiwr yn llofruddio George Floyd, ac wedi penderfynu os na fyddai'n gweithredu i achub y dyn hwnnw na fyddai fyfryn gwell na'r tri plismon yn yr UDA.

Yng nghanol y miliynau o eiriau, dyma weithredoedd yn llefaru'n huawdl. Cafodd Patrick Hutchinson gyfle ac fe weithredodd. Mentrodd ei fywyd ei hun i achub bywyd dyn arall.

Os oes un teimlad wedi fy llethu i wrth wyllo hyn oll, diymadferthedd yw hwnnw. Er gwaethaf pob cydymdeimlad sut ar wyneb daear alla i – dyn, a hwnnw'n ddyn gwyn, dosbarth canol, canol oed, yn byw yng nghefn gwlad Cymru – ddechrau dychmygu'r rhagfarn mae fy nghyd-ddyn a fy nghyd-ddynes sy'n digwydd bod â lliw

croen gwahanol, yn ei ddioddef yn Aberystwyth, heb sôn am Gaerdydd, Llundain neu Miniapolis?

Sut alla'i weithredu mewn unrhyw fodd sydd ddim yn ymddangos yn gwbl docynistaidd? Gweithredu alla'i ymddangos yn ddim mwy na neidio ar y wagan ddiweddaraf? A'r cwestiwn mawr, taswn i yn esgidiau Patrick Hutchinson a fyddwn i'n ddigon dewr i achub fy "ngelyn"?

A dyna i chi ddelwedd arall. Un o Ben-y-groes, Dyffryn Nantlle. Swastica ar ddrws teulu lleol tywyll eu croen, a chymuned yn cael cyfle i weithredu, i sefyll, i ganu, ac i sgrwbio. Ac i mi yn y sgrwbio yna oedd y neges. Mor hawdd fyddai hi wedi bod i beintio dros y ddelwedd honno. Ei gadael hi yno a'i brwsio o dan got o baent, gan obeithio na fyddai'n codi i'r wyneb eto wrth i amser blicio'r graith. Na, fe chwalwyd y ddelwedd yn llythrennol ac yn drosiadol. Fydd hi ddim yno i godi i'r wyneb byth eto. Gwnaeth arweinwyr y gymuned hi'n gwbl glir nad oedd croeso i'r weithred honno nac i unrhyw un debyg iddi yn y dyfodol.

Dyma weithredu fel y byddai Crist wedi gwneud. Baeddu ei ddwylo. Dangos esiempl. Gosod ei hun mewn perygl. Ambell dro mae sefyllfa'n ddu ac yn wyn. A'r troeon hynny'n gyfleon i droi'n geiriau'n weithredoedd.

**Rocet Arwel Jones**

## YN RHAN O GYNLLUN DUW (rhan 2)

Yn yr erthygl flaenorol fe fu i mi gyflwyno'r wybodaeth sydd bellach ar gael i ddangos pam bod pobl hoyw i'w hystyried yn rhan ddilys, bwriadol ac angenrheidiol o gynllun a chreadigaeth Duw. Os na weloch chi'r erthygl, ewch cyn darllen hon i YouTube a gwylwch y fideo **Tedx: Homosexuality – It's about survival not sex**. Pwrpas yr ail erthygl yma ydi cysylltu hyn i gyd â geiriau Iesu Grist a gorchmynion Paul.

I ddechrau felly – cwestiwn: os ydi bodolaeth pobl hoyw'n wrthyn gan Dduw, pam nad ydi'r Beibl yn fwy eglur ar y mater? Prin ydi'r cyfeiriadau ato. Ond dyma un, sef yr adnod "Dyna pam y bydd dyn yn gadael ei dad a'i fam, ac yn glynu wrth ei wraig, a byddant yn un cnawd". Mae'n datgan ffaith. Ond mae angen dehongli i weld datgan ffaith am un peth yn gondemiad o un arall. Dydi'r ffaith fod ceir yn defnyddio ffyrdd ddim yn gondemiad o feicwyr.

Ond beth am lythyr cyntaf Paul at y Corinthiaid, a'r ailadrodd sydd ar y condemnio yno? Cynigiau bod angen ei weld yn ei gyd-destun, sef bod Paul yn ysgrifennu at bobl byd Groegaidd. Un o arferion y diwylliant Groegaidd oedd i ddynion heterorywiol gyflawni'r weithred wrygydiol â'i gilydd. Yn wir, roedd hynny'n cael ei ystyried yn weithred dod i oed (*rite of passage*) i ddynion ifanc; mae arysgrifau i'w cael sy'n dathlu hyn. Felly, yn arbennig o ystyried mai at berthynas

pobl heterorywiol mae penodau 6 a 7 y llythyr yn cyfeirio, cynigiau felly mai'r hyn mae Paul yn ei gondemnio ydi ymddygiad gwrygydiol rhwng pobl heterorywiol.

Beth sydd gan Iesu Grist i'w ddweud ar y mater? Yr unig gyfeiriad posib at bobl hoyw yng ngeiriau Crist ydi hwnnw at eunuchiaid yn Mathew 19. Mae Geiriadur y Brifysgol yn diffinio eunuch fel "dyn wedi ei ddisbaddu". Ond mae Iesu'n mynd ymhellach na hynny ac yn dweud, "Y mae rhai eunuchiaid sydd felly o groth eu mam..."

Nid cyfeiriad at eunuch yn ystyr arferol, geiriadurol, y gair mo hynny. Cynigiau mai cyfeiriad ydi o at bobl nad ydyn nhw, fel y soniwyd yn yr erthygl gyntaf, yn mynd i gynhyrchu plant. Rydw i o'r farn fod Iesu fan hyn yn defnyddio'r cysyniad o eunuch – cysyniad cyfarwydd a chymeradwy gan bobl ei oes – fel modd i gymeradwyo pobl hoyw.\*

Rydym fel enwad wedi peidio â gwahaniaethu yn erbyn merched ac Iddewon, pobl y mae cyfeiriadau llawer amlach a mwy pendant yn eu herbyn yn yr Ysgrifur, felly pam parhau yn achos pobl hoyw? Cynigiau bod y prif reswm am hynny, yr hyn sy'n gwneud pobl yn "anghyfforddus" wrth drafod y mater, i'w gael yn syml yn yr ymateb "ych a fi". Mae hwn yn ymateb feithrinwyd dros ganrifoedd, yn yr un modd â'r ymateb

gwahaniaethol yn erbyn merched, a'r ymateb hiliol yn erbyn Iddewon, fel arfer er budd pobl rymus oedd ag angen testun bai.

Ac o ran yr ymateb "ych a fi" ei hun, gofynnwch i chi'ch hun: ar beth mae hwnnw'n seiliedig? Ai ar yr hyn rydych chi'n dychmygu mae pobl hoyw'n ei wneud â'i gilydd yn y gwely? Os felly, ystyriwch hyn. Pe byddech chi'n gwybod am rywun oedd â'i feddwl ar yr hyn roeddech chi'n ei wneud yn y gwely â'ch cymar, mi fyddech yn ystyried y person hwnnw'n wyrdroedig – yn "pervert". A phe byddai'r person hwnnw wedyn yn defnyddio'r hyn roedd wedi ei feddwl i wahaniaethu yn eich erbyn, gan eich ystyried yn anhaeddiannol o'r gymdeithas oedd yn hawl iddo fo ac i bawb tebyg iddo, mi fyddech chi'n ei weld yn berson ffaith. Rwan, rhowch eich hun yn lle person hoyw.

Rydw i'n ddigon hen i fod wedi gweld newid agwedd yn y gymdeithas yn gyffredinol tuag at bobl hoyw. Yn y cyfnod hwnnw, rydw i wedi gweld cenhedlaeth o bobl ifanc hoyw'n dod i oed ac, er yn dal i orfod dioddef rhagfarn a chasineb ar brydiau, yn bobl normal sy'n cael cyrraedd eu potensial sylweddol a'u gwerthfawrogi am eu cyfraniad. Onid ydi hi'n bryd i *bawb*, Cristnogion hefyd, ddal i fyny â hyn, a thrwy hynny byw a chyd-fynd yn agosach at, ac yn fwy cyfforddus ag, egwyddorion cariad a pharch Crist?

**Dafydd Chilton**

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn...

Bydd ein myfyrdodau'n parhau heddiw gyda'r darlleniad a awgrymir gan y Llithiadur Diwygiedig Cyffredin. Ein gobaith yw parhau i ddilyn y "ddisgyblaeth" allanol a chaniatáu iddo ein tywys i adnabod Gair Duw yn well.

## GWEDDI

Sanctaid Dduw, yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân, yr hwn wyt goruwch pob peth, yr hwn wyt y tu hwnt i'n galluedd i'th gynnwys, ein dychmyg i'th ddirnad, ein hewyllys i ni i fedru dy wasanaethu'n llwyr; yr hwn wyt yn unig yn deilwng o fawl y greadigaeth oll. Derbyn ein deall gwan, ein meddyliau simsan, ein cyrff brau, ein hewyllys gyfnewidiol, ein teimladau oriog. Am y munudau yma rydym am fod yn dawel o'th flaen, yn agored o'th flaen, yn onest o'th flaen. Tyrd atom o grëwr pob goleuni. A phâr yn awr y bydd ein munudau nesaf yn "gyfarfod hyfryd iawn..."

Trwy Iesu Grist, Amen.

**EMYN 22:** Tyrd atom ni

**DARLLENIAD:** Mathew 10:40-42

## MYFYRDOD

Gwelsom cyn hyn bod Iesu'n ein galw ninnau, fel ei ddisgyblion ar hyd yr oesau, trwy ras a ffydd i fod yn ddisgyblion sy'n gwneud disgyblion. Daeth Teyrnas Nefoedd i'n plith yn Iesu Grist. Daeth gan herio teyrnas a gwerthoedd tywysog y byd hwn. A daeth i wahodd y byd yn ei wrthryfel i edifarhau ac i ufuddhau i deyrnasiad Duw. Y mae ei ddyfodiad yn barnu ac yn rhannu barn. Ac mae yna gost o'i ganlyn. I godi croes nid i gysgu ar glustog y cawsom ein galw.

Gallwn ddychmygu ei ddisgyblion, hyd yn oed wedi iddo'i hannog i beidio â phryderu yn arswydo wrth feddwl am yr alwad ar eu bywydau. A gallwn ddychmygu llu o gwestiynau'n rhuthro drwy feddyliau darllenwyr cyntaf Mathew. Beth os na allwn ni fynd a chodi'n pac a theithio fel yr apostolion? Beth os yw'n cyfraniad ninnau, o gymharu ag arwyr mawr y ffydd, yn bitw ac yn ymddangos i ni yn ddiwerth?

Gadewch i ni nodi'r canlynol.

### Croeso a gobaith

Er bod yr adnodau blaenorol wedi cynnwys rhybuddion caled am wrthwynebiad "y byd" i ddyfodiad Teyrnas Dduw roedd Iesu hefyd wedi disgwyl croeso. "I ba dref neu bentref bynnag yr ewch, holwch pwy sy'n deilwng yno, ac yno os bydd y tŷ yn deilwng, doed eich tangnefedd arno..." (10: 11,13)

Bydd nifer yn derbyn y negeswyr a'r neges. Daw heddwch i'r tŷ a'i croesawodd. Bydd yn rhagflas o ddaioni'r nef – y Shalom dwyfol. I'r rhai sy'n gweddio ac yn gweithio yn y cynhaeaf, fe fydd ffrwyth. (10: 37-38) Bydd y rhai sy'n "fy nerbyn i" (ad 40) hefyd ar sail hynny yn "eich derbyn chwi".

Pan dybiwn, neu pan esgusodwn ein hunain ar brydiau, nad oes gan bobl ddiddordeb mwyach, mae Iesu'n addo y bydd y rhai sydd am ei groesawu Ef hefyd yn eu croesawu hwythau. Ni ddaeth Mab Duw i'n daear heb yr addewid "efe a wêl o lafur ei enaid".

### Pwy sy'n bwysig go iawn – y proffwyd, y cyfiawn, y rhai bychain

Iesu ei hun sy'n cyfeirio at y "proffwyd" a'r "un cyfiawn" a'r "rhai bychain" (disgrifiad a arferid i gyfeirio at blant bach). Byddai'n rhwydd iawn i ni dybied am nad ydym yn gewri, yn "broffwyd" bod ein cyfraniad yn ddibwys. Neu fe allem dybio am nad ydym yn sefyll ben ac ysgwydd uwchlaw'r dorf fel y rhai cyfiawn mai dibwys yw'n cyfraniad. Na, meddai Iesu, nid dyna'r gwir fesur o gyfraniad unrhyw un. Bydd fe fydd yna gewri – yn "broffwyd" yn bobl "gyfiawn" sy'n cael eu hadnabod am eu bod yn bobl neilltuol. Ond nid dibwys mo cyfraniad y "disgybl" sy'n croesawu "rhai bychain." Bydd y rhai sy'n croesawu Iesu Grist hefyd yn croesawu ei bobl.

Croesawyd gwas Abraham gan Laban, pan aeth i chwilio am wraig i Isaac, mab Abraham. Roedd croesawu'r gwas fel croesawu'r un a'i hanfonodd. Mae anrhydeddu llysgennad heddiw yn anrhydeddu'r llywodraeth a'i hanfonodd. Mae croesawu'r disgybl distadlaf yn croesawu'r Meistr.

### Gwobr y distadl

Caiff y rhai sy'n croesawu'r Iesu, sy'n croesawu ei ddisgyblion lleiaf, y cyfiawn, a'r proffwyd, eu gwobrwyo. Croesawodd Abraham tri gŵr gerllaw derwen Mamre. A chafodd wob- cafodd glywed bod cyflawniad yr addewid a wnaed iddo am yr etifedd roedd yn dyheu amdano, yn mynd i gael ei gyflawni o fewn y flwyddyn.

Croesawodd y weddw dlawd yn Sarefeth y proffwyd Elias a derbyniodd gynhaliaeth drwy'r newyn.

Peth peryglus i unrhyw Gristion sydd am anrhydeddu ei Arglwydd yw tanbriso gwerth gweithredoedd "dibwys". Meddai Iesu, mae'r person sy'n cyfrannu "gymaint â chwpanaid o ddŵr oer i un o'r rhai bychain hyn am ei fod yn ddisgybl, yn wir, rwy'n dweud wrthyh, ni chyll ei wobwr."

Mae pob cymorth a roddwn i hybu'r Deyrnas yn werthfawr. Os mai cyfrannu i hybu gweinidogaeth gyhoeddus ein capeli, os mai hyrwyddo gweithredoedd cyfiawnder, os mai galluogi gweithgarwch elusennau Cristnogol a wnawn. Mawr yw ein braint yng Nghrist. "Ni chyll ei wobwr." Ac ni fethodd addewid Iesu erioed. Ac ni chafodd unrhyw a'i gwelodd erioed eu siomi.

Nid yw'n dweud yn union pryd y rhoddir y wobwr i ni. Ond dychmygwch yr awr. Fel plant bach yn yr ysgol gynradd sydd wedi ennill "seren" o ganmoliaeth cawn ninnau sefyll gerbron y byd, gerbron angylion, gerbron y nef ei hun yn llawenhau am i'r Arglwydd gostrelu gwerth tragwyddol y "cwpanaid o ddŵr oer" a'i wobrwyo.

## GWEDDI

Dduw Dad, wnest ti erioed dorri dy air. Wnest ti ddim erioed ddibrisio dy blant y rhai a brynaist i ti dy hun drwy waed tragwyddol dy Fab Iesu Grist. Wnest ti ddim erioed wrthod gwaith dy Ysbryd Glân yng nghalonau dy blant. Mi wn mai troseddwy'r dy gyfraith ydym oll, heb hawl, na haeddiant na nerth. Ond diolch y daeth dy Fab, Iesu Grist, i brynu'n rhyddid, i dalu'n dyled, i offrymu ei hun. Diolch i ti bod dy ras yn parhau i'n gwahodd atat drwyddo ef. Diolch bod yna rodd na allwn ei haeddu, gras, yn dwyn maddeuant a bywyd newydd i ni.

Llanwa dy Eglwys ... ein bröydd ... ein cenedl ... gyda'th Ysbryd Glân. A chaniatâ i ninnau'r fraint o fedru bod wedi cyfrannu i ledaeniad dy Deyrnas – i weddio am weithwyr, i gynnig "cwpanaid o ddŵr" i hyrwyddo dy waith, i groesawu dy bobl, i groesawu Iesu Grist.

Bendithia'n gwlad, ein plant, ein pobl, ein llywodraeth, ein harweinwyr, ein gofalgwyr. Cadw ni rhag drwg. Derbyn ein meddwl, ein gwaith, ein gweddi a'n calon er mwyn Iesu Grist.

Amen.

Os na nodir yn wahanol nid yw barn y cyfranwyr o angenrheidrwydd yn farn y golygydd na'r Gymanfa Gyffredinol.

Anfoner pob gohebiaeth, newyddion, ysgrifau, a.y.y.b. at y Parch. Ddr. R. Watcyn James, Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth SY23 3LZ. e-bost: [goleuad@ebcpcw.cymru](mailto:goleuad@ebcpcw.cymru)

Cyhoeddwyd gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru ac argraffwyd gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon.